



Gwasanaeth Cefnogi Isadeiledd Iaith (LLAIS)
Language Awareness Infrastructure Support (LLAIS)
NWORTH, Y Wern
Safle'r Normal Site
Prifysgol Bangor University
Bangor, Gwynedd
LL57 2PZ

llais@bangor.ac.uk

01248 38 3171 – Dr Llinos Haf Spencer (Swyddog Ymchwil/Research Officer)

01248 38 3153 – Mrs Beryl Cooledge (Cyfarwyddwr/Director LLAIS)

ADRODDIAD HOLIADUR LLAIS 2019

Ym mis Chwefror 2019, cafodd Holiadur LLAIS ei anfon allan i n=141 o rhan-ddeiliaid LLAIS (sef unedau treialon eraill yng Nghymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Byrddau Iechyd Cymru ac eraill). Nid oedd modd cyrraedd rhai o'r rhain drwy e-bost unai oherwydd nad oeddynt bellach yn gwneud y swydd, roeddent i ffwrdd o'r swydd am gyfnod (e.e. mamolaeth neu salwch tymor hir) neu bod yr e-bost at sawl person wedi methu cyrraedd rhai pobl am ba bynnag rheswm i wneud efo systemau technoleg gwybodaeth. Y dyddiad cau gwreiddiol oedd 28/02/2019, ond cafodd hwn ei ymestyn i 15/03/2019 wrth i fwy o ran-ddeiliaid cael eu gwahodd i ymateb drwy ffynonellau eraill (Twitter @micymraeg ac e-bost oddi wrth Eleri Hughes-Jones, BCUHB). Felly roedd tua n = 141 o ran-ddeiliaid.

Erbyn 15/03/2019 cafwyd 18 ymateb i'r holiadur yn rhoi amcan cyfradd ymateb o tua 13%. Er bod hyn yn ffigwr isel, yr hyn sydd yn bwysig yw codi ymwybyddiaeth o LLAIS a chael gwybodaeth am y mesurau canlyniad claf sydd angen eu dilysu i'r Gymraeg gan LLAIS.

Cafodd yr ymatebion eu coladu gan Dr Llinos Haf Spencer (Swyddog Ymchwil LLAIS), ac mae crynodeb o'r ymatebion ar gyfer bob cwestiwn yn yr adroddiad hwn (gweler isod):

Cwestiwn 1. Teitl swydd

Roedd 18 o ymatebwyr wedi rhoi teitl eu swydd, o Ystadegydd i Ymgynghorwyr mewn Iechyd Cyhoeddus.

Cwestiwn 2. Sefydliad

Roedd 18 o ymatebwyr wedi rhoi lleoliad gwaith. Roedd y rhan fwyaf ohonynt o Dde a Gogledd Gymru a rhai o Loegr.

Cwestiwn 3. Lleoliad gwaith

Roedd 18 o ymatebwyr wedi dweud eu bod yn gweithio yng Nghymru, gyd ag un yn gweithio yng Nghymru ac yn Lloegr.

Cwestiwn 4. Ydych chi wedi clywed am LLAIS?

Roedd y canran uchaf (11/18) wedi clywed am wasanaeth cefnogi isadeiledd ymwybyddiaeth iaith (LLAIS).

Cwestiwn 5. Sut glywsoch chi am LLAIS?

Roedd rhai o'r ymatebwyr (7/18) wedi dweud eu bod wedi clywed am LLAIS drwy rhyw ddull arall hebl aw am ddarlith, sesiwn ymwybyddiaeth iaith, gwefan neu Trydar. Roedd rhai wedi gweithio gyda Gwerfyl Roberts (gyn-gyfarwyddwr LLAIS) rhywdro yn y gorffennol.

Cwestiwn 6. Oeddech chi'n gwybod bod LLAIS yn dilysu mesurau iechyd?

Roedd tua hanner (9/18) yr ymatebwyr yn gwybod bod LLAIS yn dilysu mesurau iechyd ar gyfer gwasanaethau acymchwil.

Cwestiwn 7. Ydych chi'n defnyddio mesurau iechyd?

Roedd rhai (8/18) o'r ymatebwyr yn defnyddio mesurau iechyd ar gyfer gwasanaethau neu ymchwil.

Cwestiynau 8 a 9. Mesurau iechyd a manylion hawlfraint

Dyweddod rhai (8/18) o'r r ymatebwyr y byddent yn hoffi gweld y mesurau iechyd canlynol yn cael eu dilysu yn ieithyddol gan LLAIS: Gweler Tabl 1.

Tabl 1 Ymatebion am fesurau iechyd Cymraeg i'w dilysu (ac ymateb i'r sylw gan LLAIS mewn cromfachau).

Rhif ymateb	Enw'r mesur iechyd	Sylw gan LLAIS
1.	Resource use questionnaire for core primary and secondary services	Dim enw mesur penodol
2.	Caregiver strain questionnaire	Dim enw mesur penodol. Mae holiaduron fel hyn ar micym.org
3.	Nottingham Extended Activities of Daily Living Scale (NEADL)	LLAIS wedi ei ddilysu yn 2016. Mae ar wefan micym.org
4.	GESQ	Mesur bodlonrwydd yw hwn nid mesur canlyniad y claf (PROM).
5.	Forthcoming measure of resilience in dementia	Heb ei greu yn Saesneg eto. Tua 2020.
6.	CAPS-5. Measure for PTSD Hawlfraint: Department of Veterans Affairs, US Government.	Mesur sy'n cael ei roi gan y meddyg, nid yw'n fesur canlyniad y claf (PROM)
7.	EQ5D	Wedi cael ei ddilysu gan LLAIS a'r Athro Dyfrig Hughes yn 2007.
8.	Stroke Impact Scale (Duncan et al 2003)	Posibilrwydd i gael ei ddilysu gan LLAIS os yw ymchwilwyr/gweithwyr iechyd yn ei ddefnyddio yng Nghymru.

Allwedd:

Coch – Dim enw mesur penodol.

Llwyd – Mesur wedi cael ei ddilysu i'r Gymraeg yn barod.

Gwyrdd – Mesur sydd angen cael ei ddilysu i'r Gymraeg yn y dyfodol.

Amber – Mesur sydd angen cael ei ddilysu i'r Gymraeg yn nawr yn ôl y gofyn.

Cwestiwn 10. Amserlen

Dyweddod 6 o'r ymatebwyr yr hoffent gael y mesurau yn barod rhwng Ebrill 2019 a Ionawr 2021.

Cwestiwn 11. Sylwadau pellach

Roedd 4 sylw ychwanegol wedi dod i law.

Sylw 1: Da clywed fod cymorth i'r Gymraeg yn dod.

Ymateb gan LLAIS i sylw 1: Mae LLAIS wedi bod yn cefnogi ymchwil yng Nghymru ers 2011.

Sylw 2: *I'm not sure which health economics measures have been translated but measures such as the ICECAP-A capabilities measure and CHU-9D (child health utility measure) would also be useful in the long term if not already available. A generic micro-costing diary template would also be a useful Resource.*

Ymateb gan LLAIS i sylw 2: Mae'r ICECAP-A a'r CHU-9D eisoes wedi cael eu dilysu yn ieithyddol i'r Gymraeg ac ar gael drwy wefan micym.org. Byddai dyddiadur yn gorfod bod yn addas ar gyfer prosiect arbennig.

Sylw 3: *We need more support for translating patient Information sheets and consent forms.*

Ymateb gan LLAIS i sylw 3: Mae LLAIS yn fodlon prawf ddarllen taflenni gwybodaeth sydd wedi cael eu cyfieithu gan gyfieithwyr eraill, ond nid gwasanaeth cyfieithu yw LLAIS.

Sylw 4: Bore Da – (Enw) yma o'r Bwrdd Iechyd. Diddordeb mawr yma ynglŷn a'r mesurau iechyd. Hoffwn weld llyfrgell ar y we – sydd yn rhestru'r holl fesurau ond sydd hefyd yn dangos amserlen cyfieithu/dat blygu. Fel Bwrdd Iechyd – gwelw bod cyfle i Lywodraeth Cymru helpu gyda hyn oherwydd anghenion Cymru gyfan. Angen blaenoriaethu meysydd plant ac iechyd meddwl yn hynod bwysig.

Ymateb gan LLAIS i sylw 4: Mae gwefan micym.org yn lyfrgell o fesurau iechyd Cymraeg y gellir ei archwilio wrth ddefnyddio y botwm 'chwilio' neu gwneud 'Control ag F' fel mewn dogfen Word. Gellir lawrlwytho mesur arbennig, neu darganfod pwy sydd yn berchen ar yr hawlfraint i gysylltu gyda hwy yn uniongyrchol. Mae hefyd modd gweld pa fesurau nad ydynt yn barod eto, ond sydd yn cael eu datblygu.

Gan fod yr holiadur yn cael ei lenwi yn anhysbys, nid oedd modd cyfathrebu yn uniongyrchol gyda rhai o'r ymatebwyr hyn, ond roedd modd gyda'r rhai oedd wedi gadael eu henw gyda'r sylw. Ceisiwyd ymateb i'r rhai eraill ar Twitter (@micymraeg-474 o ddilynwyr yn gyfredol) er mwyn cyfleu y negeseuon bod llawer o'r mesurau ar gael yn Gymraeg yn barod!

Y camau nesaf

1. Bydd Llinos a Beryl yn edrych am fanylion am y mesurau sydd wedi cael eu crybwyll yn y weithgaredd yma. Daeth rhai mesurau drwy e-bost hefyd a gwnaethpwyd gysylltiad gyda Sarah Putoni (PROMS) a Kathleen Withers (CEDAR).
2. Bydd cyfarfod i drafod yr ymatebion hyn a blaenoriaethu ar gyfer y dyfodol yn cael ei gynnal ym mis Ebrill 2019 ym Mhrifysgol Bangor. Bydd rhan-ddeiliaid ac aelodau RHOI LLAIS yn cael eu gwahodd i gyfrannu.
3. Bydd dau fesur iechyd canlyniad y claf yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer eu dilysu yn 2019 gan LLAIS.

Manylion cysylltu efo LLAIS

Language Awareness Infrastructure Support (LLAIS)

NWORTH, Y Wern

Safle'r Normal Site

Prifysgol Bangor University

Bangor, Gwynedd

LL57 2PZ

llais@bangor.ac.uk

01248 38 3171 (Dr Llinos Spencer, Swyddog Ymchwil LLAIS Research Officer)

01248 38 3153 (Mrs Beryl Cooleage, Cyfarwyddwr LLAIS Director)

www.Micym.org (Ilyfrgell o fesurau iechyd sydd ar gael yn Gymraeg)

Llais.org (gwefan LLAIS, NWORTH, Prifysgol Bangor University)